

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Twymyn, Ysbyty Cymunedol
Bro Ddyfi, Bwrdd Iechyd Addysgu
Powys

Dyddiad arolygu: 16 a 17 Rhagfyr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mawrth 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83745-345-0

© Hawlfraint y Goron 2026

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C - Cynllun gwella	26

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 16 a 17 Rhagfyr 2025. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Twymyn - 14 o welyau yn darparu gwasanaethau meddygol a gwasanaethau adsefydlu.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur i roi gwybod eu barn i ni am weithio i'r gwasanaeth. Ni dderbyniwyd unrhyw holiaduron wedi'u cwblhau.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd y cleifion ar ward Twymyn eu bod yn hynod fodlon ar eu gofal ar y cyfan, gan nodi bod y staff yn ymateb yn gyflym i geisiadau ac yn eu trin ag urddas a pharch yn gyson. Tynnodd yr adborth gan y cleifion sylw at ryngweithio cadarnhaol ac ymdeimlad cryf o dosturi gan y staff. Roedd y ward yn hyrwyddo gofal a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd gwybodaeth iechyd ddwyieithog ar gael ac roedd y staff yn annog annibyniaeth y cleifion drwy ymgysylltu â nhw mewn ffordd gefnogol. Roedd gofal yn cael ei deilwra at anghenion unigol, gyda'r cleifion a'u perthnasau'n cymryd rhan yn y gwaith cynllunio, ond roedd y cyfleusterau ymolchi a thoiledau cyfyngedig yn achosi heriau o ran rheoli heintiau.

Roedd gofal amserol yn cael ei ddarparu ar y cyfan, ond roedd rhai cleifion yn aros am gyfnodau estynedig oherwydd oedi yn y ddarpariaeth gofal cymunedol. Roedd y cyfathrebu'n gynhwysol, ond roedd y nifer cyfyngedig o staff oedd yn siarad Cymraeg yn effeithio ar allu rhai cleifion i sgwrsio yn eu dewis iaith. Cynghorwyd y bwrdd iechyd i wella'r defnydd o'r Gymraeg a gwella arwyddion ar gyfer cyfleusterau ystafell ymolchi, yn enwedig ar gyfer y rhai ag amhariad ar eu golwg neu amhariad gwybyddol. Roedd hawliau a chydaddoldeb yn cael eu blaenoriaethu, gyda'r staff yn gwrtais ac yn llawn sylw'n gyson, ac roedd y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn cael eu cymhwyso'n briodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r ddarpariaeth o gyfleusterau ystafell ymolchi ar y ward
- Parhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael i hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y ward.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhyngweithio da ymysg y staff
- Darparu bwyd
- Yr amgylchedd a glendid yn gyffredinol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd diogelwch cleifion a chymorth i berthnasau'n cael eu blaenoriaethu, gyda gweithdrefnau rheoli risg da, archwiliadau rheolaidd a threfniadau mynediad diogel ar waith. Roedd mesurau atal a rheoli heintiau yn gadarn ar y cyfan, ond nodwyd rhai materion, fel storio cyfarpar yn amhriodol ac oedi wrth ddihalogi, a chawsant eu hunioni'n ddi-oed. Roedd polisïau diogelu sefydledig ar waith, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol.

Roedd cyfarpar meddygol ar gael ac roedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gan mwyaf, ond roedd y dyddiad ar rai labeli gwasanaethu wedi mynd heibio. Roedd y broses o reoli meddyginiaethau yn cael ei chefnogi drwy adolygu'r polisi yn barhaus, ymweliadau rheolaidd gan y fferyllfa, a phrosesau rhoi meddyginiaeth a reolir yn dda, ond mae angen gwneud gwelliannau o safbwynt rhoi ocsigen a chadw cofnodion. Roedd asesiadau risg cynhwysfawr mewn perthynas â briwiau pwyso a chwympiadau'n cael eu cynnal fel mater o drefn, gan sicrhau ymyriadau amserol gan staff arbenigol.

Roedd y gofal yn glinigol effeithiol, wedi'i gefnogi gan gydweithio amlddisgyblaethol a'r system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol. Er bod y prosesau trosglwyddo gofal yn gadarn, argymhellwyd y dylid cyflwyno 'rowndiau bwrdd' dyddiol i wella'r broses o rannu gwybodaeth. Roedd y ddarpariaeth maeth a hydradu yn foddhaol, ond mae angen gwella'r hyfforddiant hylendid bwyd i weithwyr cymorth. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ond argymhellwyd y dylid newid i ddefnyddio cofnodion electronig er mwyn sicrhau cysondeb.

Gwelwyd bod gofal yn cael ei ddarparu yn effeithlon, wedi'i hwyluso gan gyfarfodydd amlddisgyblaethol ar ryddhau cleifion; fodd bynnag, roedd oedi wrth wneud penderfyniadau weithiau'n rhwystro'r broses o ryddhau cleifion yn amserol. Roedd y ward yn dangos ymrwymiad i ofal diogel, effeithiol ac effeithlon ar y cyfan, ond dylai fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd er mwyn gwella canlyniadau i gleifion ymhellach.

Gwelsom fod y gofal a ddarperir ar Ward Twymyn yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan, wedi'i ategu gan bolisïau cynhwysfawr, archwiliadau rheolaidd a gwaith amlasiantaethol cryf. Fodd bynnag, mae angen gwella nifer o feysydd i sicrhau diogelwch cleifion, effeithlonrwydd a chydymffurfiaeth â safonau arferion gorau.

Dangosodd y staff ymroddiad i ofal effeithlon, gan wasanaethu grŵp amrywiol o gleifion, gan gynnwys cleifion ag anghenion corfforol sylweddol, neu gleifion a oedd yn aros ar gyfer lleoliad rhyddhau.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff sy'n defnyddio silindrau ocsigen BOC cludadwy yn cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio'n ddiogel.

Rhaid gwneud hyn yn holl wasanaethau'r bwrdd iechyd lle caiff silindrau ocsigen BOC eu defnyddio.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu trefniadau diogelwch y ward
- Rhai agweddau ar y dogfennau gofal
- Rhai agweddau ar atal a rheoli heintiau
- Rhai agweddau ar faeth a hylendid bwyd
- Sicrhau bod yr holl gyfarpar ar y ward yn cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd
- Sicrhau bod penderfyniadau mwy rhagweithiol yn cael eu gwneud o ran rhyddhau cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Rheoli risgiau yn gyffredinol
- Gwaith amlddisgyblaethol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae'r ward yn dangos strwythurau rheoli ac arwain da, a gefnogir gan drefniadau llywodraethu effeithiol a ffocws parhaus ar wella gwasanaethau drwy archwiliadau rheolaidd. Mae'r staff yn cael budd o gymorth a goruchwyliaeth gadarn gan reolwr y ward, gydag arfarniadau ac adolygiadau perfformiad ffurfiol yn cael eu cynnal fel mater o drefn. Mae'r prosesau recriwtio yn drylwyr, gan sicrhau y caiff staff medrus sydd wedi'u gwirio'n briodol eu penodi.

Caiff y staff eu hannog i fanteisio ar ystod o gyfleoedd hyfforddiant, yn fewnol ac yn allanol, gyda chyfraddau cwblhau uchel mewn meysydd gorfodol fel diogelwch tân, rheoli heintiau, diogelu a phynciau penodol i'r gwasanaeth. Mae aelodau'r gweithlu'n gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion. Ni cheir fawr o gŵynion a cheir dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Caiff llywodraethu gwybodaeth ei reoli'n dda, gyda'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw cofnodion cywir a chyfrinachedd. Mae archwiliadau rheolaidd yn ysgogi gwaith gwella ansawdd parhaus ac mae gwaith partneriaeth yn amlwg, gyda'r ward yn cael cymorth gan ystod o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd gan gynnwys meddygon teulu, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a deietegwyr.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Datblygu'r system rheoli cofnodion electronig ymhellach.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cymorth a threfniadau goruchwyllo da gan reolwr y ward
- Prosesau archwilio ac adrodd da.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal yn ward Twymyn ar y cyfan a bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedwyd bod y staff yn ymateb yn gyflym i geisiadau am gymorth.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'n dda iawn yma.”

“Lle bendigedig.”

“Llawer o staff a fydd yn helpu.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r ward, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ddwyieithog. Roedd y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth. Roedd dogfennau 'Dyma fi' yn cael eu defnyddio ar y ward ac roedd copi papur ar gael yn y ffeil ofal wrth ochr gwely pob claf er mwyn cyfeirio ato'n hawdd.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm o staff ac roedd y cleifion a'u perthnasau yn llawn canmoliaeth i'r staff. Roedd y staff yn garedig ac yn dangos parch, gan ymdrechu i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth helpu i ddiwallu eu hanghenion gofal personol. Gwelsom y drysau i'r ystafelloedd gwely'n cael eu cau a'r llenni'n cael eu tynnu o gwmpas cleifion pan roedd gofal personol yn cael ei roi.

Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal. Roedd y staff hefyd yn sicrhau bod y cleifion yn lân ac roeddent yn cael eu hannog a'u helpu i newid i'w dillad bob dydd er mwyn cynnal eu hannibyniaeth.

Gofal wedi'i deilwra at yr Unigolyn

Roedd y gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu drwy drafod â'r cleifion ar y cyfan ac mewn ffordd a oedd yn nodi ac yn diwallu eu hanghenion a'u dymuniadau unigol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod nhw a'u perthnasau yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'u gofal. Roedd y ddogfennaeth gofal yn dda. Roedd y cynlluniau gofal yn adlewyrchu lefel ac ansawdd y gofal a oedd yn cael ei ddarparu yn gywir. Fodd bynnag, nid oedd digon o gyfleusterau ymolchi a thoiledau ar y ward, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd rheoli cleifion â heintiau a oedd yn cael gofal nyrsio ataliol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth o ran ystafelloedd ymolchi a thoiledau ar y ward er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau presennol yn ddigonol a bod y cleifion yn gallu dewis cael cawod neu fath.

Roedd dymuniadau'r cleifion mewn perthynas ag adfywio pe byddai angen ystyried hynny yn cael eu trafod â'r cleifion a chynrychiolwyr penodol o'r teulu. Roedd dogfennaeth Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNACPR) yn cael ei chwblhau lle y bo'n briodol.

Amserol

Gofal amserol

Roedd y staff yn ymateb i'r cleifion yn brydlon pan oedd angen cymorth arnynt, ac roedd y staff yn rhagweld anghenion y cleifion drwy eu harsylwi'n barhaus. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i rai cleifion aros ar y ward am gyfnod hwy na'r angen gan nad oedd pecynnau gofal cymunedol addas ar gael.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael a hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dim ond nifer bach o'r staff oedd yn siarad Cymraeg, a oedd yn golygu nad oedd y cleifion a'u perthnasau Cymraeg eu hiaith yn gallu sgwrsio yn eu mamiaith bob amser. Gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd bwyllog, ysgogol, cynhwysol ac urddasol, ac roeddent yn cyfeirio at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau a ffefrir ganddynt.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y ward ymhellach drwy annog y staff i ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg.

Nid oedd yr arwyddion ar y drysau i'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau yn glir iawn, yn enwedig i gleifion ag amhariad ar eu golwg neu amhariad gwybyddol, a dylid gwella'r rhain er mwyn cynnal annibyniaeth y cleifion.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r arwyddion i'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau er mwyn sicrhau bod modd eu hadnabod yn hawdd.

Hawliau a Chydraddoldeb

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwrandio arnyh nhw ac ar eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu. Roedd gofal yn cael ei roi mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion. Roedd y prosesau ar gyfer rhoi Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ar waith yn briodol ac ni nodwyd unrhyw achosion o oedi wrth ailasesu cleifion yn dilyn atgyfeiriad at dîm DoLS. Roedd y staff hefyd yn garedig ac yn barchus â'r cleifion a chadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan, a phrif flaenoriaethau'r staff oedd gofalu am y cleifion a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr. Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith, a oedd yn gyson â'r canllawiau clinigol cyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd archwiliadau clinigol ac asesiadau risg rheolaidd yn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr ymhellach.

Roedd y brif fynedfa i'r ward yn ddiogel ac roedd system gloch i reoli mynediad. Cafodd meysydd i'w gwella mewn perthynas â diogelwch y ward eu rhannu â'r bwrdd iechyd yn ystod yr adborth ar ôl yr arolygiad. Gwelwyd bod y drws i'r stordy glanhau heb ei gloi ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad; cafodd hyn ei uwchgyfeirio a'i gywiro'n brydlon a gwnaethom gadarnhau hyn ar ail ddiwrnod yr arolygiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff diogelwch y ward ei adolygu yn unol â'r adborth a ddarparwyd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau cadw tŷ da ar waith ar y cyfan. Roedd yr ardaloedd a'r ystafelloedd cymunedol yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael ac roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael er mwyn helpu i atal lledaeniad heintiau. Fodd bynnag, roedd cyfarpar diogelu personol wedi'i adael ar gadeiriau plastig y tu allan i giwbiclau gofal nyrsio ataliol, ac roedd drws un ciwbicl wedi'i adael ar agor, gan gynyddu'r risg o groes-heintio. Uwchgyfeiriwyd hyn at y nyrs â chyfrifoldeb a aeth i'r afael â'r mater ar unwaith.

Gwelsom fod troliâu dillad gwely budr yn cael eu storio ger y brif fynedfa yn aml, gan gynyddu'r risg o groes-heintio. Uwchgyfeiriwyd hyn at y nyrs â chyfrifoldeb, a drefnodd fod y troli'n cael ei symud.

Dywedwyd wrthym fod oedi o hyd at 48 awr cyn y gellir glanhau'r ciwbiclau'n drylwyr ac nid oedd peiriant Anwedd Hydrogen Perocsid ar gael ar y ward i gyflymu'r broses ddihalogi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer dihalogi ciwbiclau er mwyn lleihau oedi a chefnogi derbyniadau amserol.

Roedd eitemau o gyfarpar yn cael eu storio ar y llawr mewn stordy, gan gynyddu'r risg o groes-heintio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfarpar meddygol ac eitemau eraill eu storio ar silffoedd er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Diogelu plant ac oedolion

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y ward. Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant diogelu.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol ar gael ar y ward, a dywedwyd wrthym ei fod yn cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod y dyddiad ar labeli gwasanaethu rhai eitemau o gyfarpar wedi mynd heibio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfarpar a ddefnyddir ar y ward yn cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar waith, a oedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n barhaus, ond roedd angen gwella agweddau ar reoli meddyginiaethau. Dim ond un aelod o'r staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio silindrau ocsigen BOC cludadwy yn ddiogel. **Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato'n fanylach yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.**

Dywedwyd wrthym fod yr adran ystadau yn gwirio'r cyflenwad ocsigen drwy bibell yn wythnosol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion o wiriadau'n cael eu cadw ar y ward. Yn ogystal, roedd y falfiau i roi ocsigen wrth ochr y gwely yn cael eu cadw mewn stordy ac nid oeddent wedi'u gosod ar y pyrth rhyddhau ocsigen wrth ochr y gwely. Byddai hyn yn achosi oedi mewn argyfwng a gallai beri risg i ddiogelwch y cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall y staff roi ocsigen drwy bibell yn amserol bob amser a chadw cofnodion priodol.

Canfuwyd un claf heb strap adnabod ar ei arddwrn. Cafodd hyn ei uwchgyfeirio at y nyrs â chyfrifoldeb a gywirodd y mater ar unwaith.

Gwelwyd aelodau o'r staff yn rhoi meddyginiaeth a dangosodd archwiliad o gofnodion rhoi meddyginiaeth fod y broses yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan. Roedd tystiolaeth i ddangos bod asesiadau poen yn cael eu cynnal ac roedd y nyrsys yn gofyn yn rheolaidd a oedd angen meddyginiaethau lleddfu poen ar y cleifion pan oeddent wrthi'n rhoi meddyginiaeth. Roedd y ward yn cael ymweliadau wythnosol

gan fferylllydd, gyda chymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu gan dechnegydd fferyllol ddwywaith yr wythnos a fferylllydd cynorthwyol yn wythnosol.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwyso yn cael eu cynnal fel mater o drefn ac mewn modd amserol. Roedd atgyfeiriadau at nyrs hyfywedd meinwe arbenigol yn cael eu gwneud pan oedd angen.

Atal cwympiadau

Roedd asesiadau risg o gwmpo yn cael eu cynnal fel mater o drefn ac mewn modd amserol a gwelsom staff ffisiotherapi a therapi galwedigaethol yn helpu'r cleifion i symud a chynnal eu hannibyniaeth.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol. Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd y system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) wedi'i hadlewyrchu yn y broses asesu a chynllunio gofal. Roedd siart NEWS yn cael ei defnyddio fel adnodd asesu ac uwchgyfeirio ar gyfer sepsis. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cleifion yn cael eu harsylwi'n rheolaidd bob amser pan oedd y darlleniadau y tu allan i'r paramedrau arferol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn arsylwi cleifion yn rheolaidd pan fydd sgoriau NEWS yn dangos bod angen gwneud hynny a bod darlleniadau y tu allan i'r paramedrau arferol.

Roedd y staff yn defnyddio taflen drosglwyddo gynhwysfawr i rannu a chofnodi gwybodaeth am anghenion gofal y cleifion. Gellid gwella'r trefniant hwn drwy gyflwyno 'rownd bwrdd' dyddiol er mwyn galluogi aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol i gynnal trafodaethau amserol ynghylch anghenion gofal y cleifion a chytuno ar gynllunio gofal ac ymyriadau.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cyflwyno 'rownd bwrdd' dyddiol i wella'r broses o rannu gwybodaeth am ofal y cleifion.

Maeth a hydradu

Gwelsom fod y ddarpariaeth bwyd a diod yn foddhaol, gydag anghenion deietegol y cleifion yn cael eu gwerthuso wrth iddynt gael eu derbyn.

Roedd prydau yn cael eu paratoi'n ffres ar y safle bob dydd, roeddent i weld yn flalus ac wedi'u cyflwyno'n dda, a dywedodd y cleifion eu bod yn mwynhau'r bwyd.

Roedd y staff gwasanaethau gwesty yn cludo'r prydau i'r ward, ac ar ôl hynny roedd y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweini'r bwyd i'r cleifion. Fodd bynnag, nododd y gweithwyr cymorth hyn nad oeddent wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd. Gallai fod yn fuddiol ailystyried y trefniant hwn; pe bai'r staff gwasanaethau gwesty yn gweini'r prydau, gallai'r gweithwyr cymorth gofal iechyd ganolbwyntio ar gynorthwyo'r cleifion y mae angen help arnynt i fwyta.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniant ar gyfer gweini prydau i'r cleifion a sicrhau bod y broses yn effeithiol a bod yr holl staff sy'n trin bwyd wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd.

Cofnodion cleifion

Gwelsom fod cofnodion y cleifion o ansawdd da ac yn hawdd eu deall ar y cyfan. Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn teilwra gofal at anghenion pob claf fel yr aseswyd. Roedd systemau yn bodoli ar gyfer rhoi gwybod am newidiadau o ran gofynion y cleifion i weithwyr proffesiynol perthnasol, gan gynnwys y nyrs hyfywedd meinwe arbenigol, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion. Fodd bynnag, gwelsom un enghraifft lle na chafodd atgyfeiriad at y deietegydd ei wneud ar ôl i sgôr WAASP ddangos bod angen gwneud hynny.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn atgyfeirio cleifion at y deietegydd pan fydd eu sgôr WAASP yn dangos bod angen gwneud hynny.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw mewn fformatau electronig gan mwyaf, ac roedd copïau papur o gynlluniau gofal yn cael eu cadw wrth ochr y gwely. Gwnaethom argymhell y dylai cofnodion pob claf gael eu rheoli'n electronig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws dogfennaeth.

Dylai'r bwrdd iechyd newid i system rheoli cofnodion cleifion cwbl electronig.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom y staff yn gweithio'n galed i roi gofal effeithlon i'r cleifion.

Roedd y ward yn gofalu am amrywiaeth o gleifion, a oedd yn amrywio o'r rhai gydag anghenion corfforol sylweddol i eraill a oedd yn barod i gael eu rhyddhau ond a oedd yn aros am leoliadau cartref gofal priodol neu becynnu gofal cymunedol.

Mewn cyfarfod rhyddhau cleifion amlddisgyblaethol a fynychwyd gan Reolwr y Ward, Meddyg Teulu, Gweithiwr Cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol, Nyrs Cyswllt Rhyddhau Cleifion a Nyrs Dan Hyfforddiant, cafwyd lefel uchel o gyfranogiad a rhannodd pawb eu safbwyntiau. Fodd bynnag, roedd oedi o hyd

oherwydd nid oedd rhai penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflym ac yn rhagweithiol, a oedd yn gohirio'r broses o ryddhau cleifion ymhellach.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cyfarfodydd amlddigysblaethol yn rhagweithiol, gan sicrhau prosesau rhyddhau amserol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu a rheoli'r ward.

Roedd systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith i sicrhau ffocws ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal i gleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwr y ward a bod prosesau anffurfiol da ar waith i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd.

Roedd adolygiadau arfarnu a datblygu perfformiad staff yn cael eu dogfennu'n ffurfiol a'u cynnal yn rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a nodwyd bod y gweithdrefnau priodol wedi cael eu dilyn wrth recriwtio'r staff a bod gwiriadau recriwtio perthnasol wedi'u cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Roedd y staff ar y ward yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol.

Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn pynciau fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Iechyd a Diogelwch a Diogelu yn ogystal â hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth. Dengys y cofnodion gyfraddau cwblhau hyfforddiant da.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Yn ystod sgysiau â'r staff, gwelsom eu bod yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymroddedig i ddarparu gofal ardderchog i'r cleifion. Soniodd aelodau o'r staff mai bach iawn o gŵynion y mae'r gwasanaeth yn eu cael. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wedi dangos dealltwriaeth glir o'u rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn monitro a gwella ansawdd y gofal a ddarperir.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y ward yn cael ei chefnogi'n dda gan weithwyr proffesiynol eraill fel meddygon teulu, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a deietegwyr.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
1. Nid oedd y drws i'r stordy glanhau wedi'i gloi ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad.	Roedd hyn yn golygu bod mynediad digyfngiad i ddeunyddiau glanhau a allai achosi niwed i'r cleifion.	Gwnaethom uwchgyfeirio hyn at y nyrs â chyfrifoldeb, a gymerodd gamau i ddatrys y mater.	Cadarnhaodd gwiriadau yn ystod ail ddiwrnod yr arolygiad fod y drws yn cael ei gloi pan nad oedd y staff yn bresennol.
2. Roedd cyfarpar diogelu personol wedi cael ei adael ar gadeiriau plastig y tu allan i giwbiclau lle roedd cleifion yn cael gofal nyrsio ataliol, ac roedd y drws i un o'r ciwbiclau wedi'i adael ar agor pan oedd claf yn cael gofal nyrsio ataliol.	Roedd hyn yn cynyddu'r risg o groes-heintio.	Tynnwyd sylw'r nyrs â chyfrifoldeb at y mater hwn	Symudwyd y cadeiriau a gosodwyd troliâu dur gwrthstaen yn eu lle, a chafodd y staff eu hatgoffa i sicrhau bod y drws i'r ciwbicl yn cael ei gau.
3. Roedd troli dillad gwely budr wrth y brif fynedfa.	Roedd hyn yn cynyddu'r risg o groes-heintio.	Tynnwyd sylw'r nyrs â chyfrifoldeb at y mater hwn.	Symudwyd y troli i leoliad mwy addas.

4. Nid oedd un claf yn gwisgo strap adnabod ar ei arddwrn.	Roedd hyn yn cynyddu'r risg o roi'r feddyginiaeth anghywir gan nad oedd modd gwirio pwy oedd y claf.	Uwchgyfeiriwyd hyn at y nyrs â chyfrifoldeb.	Cymerwyd camau ar unwaith i ddarparu strap arddwrn i'r claf.
--	--	--	--

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ward Twymyn, Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi

Dyddiad yr arolygiad: 16 a 17 Rhagfyr 2025

Canfyddiadau

Dim ond un aelod o'r staff oedd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio silindrau ocsigen BOC cludadwy yn ddiogel.

Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y risgiau o niwed i gleifion yn cael eu rheoli'n briodol.

1. Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff sy'n defnyddio silindrau ocsigen BOC cludadwy yn cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio'n ddiogel. Rhaid gwneud hyn yn holl wasanaethau'r bwrdd iechyd lle caiff silindrau ocsigen BOC eu defnyddio.	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol Hysbysiad Diogelwch Cleifion 041 a Chylchlythyr Iechyd Cymru 2024/036	- Rhannwyd cylchlythyr iechyd Cymru â'r holl dimau clinigol yn GGC a BIAP. - Mae angen i'r holl staff clinigol y gallai fod yn ofynnol iddynt ddefnyddio silindrau ocsigen BOC cludadwy yn ystod eu dyletswyddau gwblhau'r canlynol :- - defnyddio, storio a pharatoi nwyon meddygol yn ddiogel - Trwy Gofnodion Staff Electronig (ESR)	Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol/Penaethiaid Nyrsio ar gyfer meysydd clinigol eraill	Wedi'i gwblhau 18.12.25 Parhaus

		• hyfforddiant ar-lein am ddim BOC ar ddefnyddio silindrau ocsigen cludadwy • Bydd canllaw i ddefnyddwyr ar gael hyfforddiant yn cael ei lunio i gefnogi mynediad i hyfforddiant a chaiff y canllaw ei rannu o fewn GGC ac ar draws BIAP • Ar gyfer wardiau cymunedol GGC, caiff sicrwydd o ran gwasanaethau nyrsys ardal a gwasanaethau nyrsio arbenigol ei roi drwy gyfarfod y Grŵp Ansawdd a Diogelwch a'r Grŵp Gwasanaethau Cymunedol. Yn anelu at gydymffurfiaeth o 85% erbyn 31 Mawrth 2026 • Ar gyfer meysydd/timau clinigol eraill o fewn BIAP, bydd adroddiadau'n cael eu darparu - mae disgwyl y bydd cydymffurfiaeth o 85% erbyn 31 Mawrth 2026 hefyd.	Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol Rheolwyr Gweithredol/Arweinwyr Clinigol	I'w gwblhau a'i rannu erbyn 9 Ionawr 2026 I'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2026 I'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2026
--	--	--	---	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol

Enw (priflythrennau): Zoë Woodmass

Teitl swydd: Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol

Dyddiad: 18/12/2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward Twymyn, Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi

Dyddiad yr arolygiad: 16 a 17 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd digon o gyfleusterau ymolchi a thoiledau ar y ward, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd rheoli cleifion â heintiau a oedd yn cael gofal nyrsio ataliol.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth o ran ystafelloedd ymolchi a thoiledau ar y ward er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau presennol yn ddigonol a bod y cleifion yn gallu dewis cael cawod neu fath.	Yn ystod gwaith adnewyddu diweddar, cafodd dwy ystafell ochr eu diweddarau i gynnwys darpariaeth en-suite i wella ein gallu i fodloni gofynion atal a rheoli heintiau ar gyfer ynysu. Cyfarfod â'r Pennaeth Nyrsio Atal a Rheoli Heintiau mewn perthynas â darparu toiledau a chyfleusterau ymolchi/cawod i gleifion sy'n cael eu hynysu.	Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Diwedd mis Mawrth 2026
2. Roedd yn rhaid i rai cleifion aros ar y ward am gyfnod hwy nag oedd angen	Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod mwy o	Mae prif nyrsys y ward yn mynychu'r cyfarfod llif cleifion	Rheolwr y ward	Diwedd mis Chwefror 2026

gan nad oedd pecynnau gofal cymunedol addas ar gael.	ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael a hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.	gyda Gofal Cymdeithasol bob dydd Llun. Parhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol i wella'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol sydd ar gael. Mae'r Swyddog Cyswllt Rhyddhau Cleifion yn mynychu cyfarfod â Gofal Cymdeithasol bob dydd Llun a dydd Mercher. Mae gan y gwasanaethau cymdeithasol eu tîm eu hunain yn yr ysbyty lle y caiff Gweithiwr Cymdeithasol ei ddyrannu i'r ward er mwyn sicrhau parhad a chanolbwyntio ar gynllunio i ryddhau cleifion.	Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Wedi'i gwblhau
3. Dim ond nifer bach o'r staff oedd yn siarad Cymraeg, a oedd yn golygu nad oedd y cleifion a'u perthnasau Cymraeg eu hiaith yn gallu sgwrsio yn eu mamiaith bob amser.	Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y ward ymhellach drwy annog y staff i ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg.	Rheolwr y ward i hyrwyddo dysgu Cymraeg ymysg y staff a thrafod y cyfle dysgu hwn gyda'r holl staff yn ystod adolygiadau arfarnu a datblygu perfformiad. Rhannu hyn gyda phob rheolwr ward	Rheolwr y ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Diwedd mis Chwefror 2027

		i'w gynnwys ym mhob trafodaeth adolygiad arfarnu a datblygu perfformiad.		
4. Nid oedd yr arwyddion ar ddrysau'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau yn glir iawn, yn enwedig i gleifion ag amhariad ar eu golwg neu amhariad gwybyddol.	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r arwyddion i'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau er mwyn sicrhau bod modd eu hadnabod yn hawdd.	Mae arwyddion yr ystafelloedd ymolchi a'r toiledau wedi'u hadolygu a chaiff arwyddion newydd ar gyfer pob toiled ac ystafell ymolchi eu harchebu i ystyried y Gymraeg, lluniau, testun mawr a lliwiau cyfeillgar i ddementia.	Rheolwr y ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Diwedd mis Awst 2026
5. Dywedwyd wrthym fod hyd at 48 awr o oedi cyn i giwbiclau gael eu glanhau'n drylwyr ar ôl i gleifion eu gadael ac nid oedd peiriant Anwedd Hydrogen Perocsid ar y ward, a fyddai'n cyflymu'r broses lanhau ac yn golygu bod y gwely ar gael yn llawer cynt.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer dihalogi ciwbiclau er mwyn lleihau oedi a chefnogi derbyniadau amserol.	Gweithio gyda'r tîm cyfleusterau i leihau'r oedi cyn glanhau'r ciwbiclau i gleifion yn drylwyr er mwyn gallu derbyn cleifion ar yr un diwrnod. BIAP i adolygu'r broses o lanhau gyda pheiriant anwedd hydrogen perocsid mewn fforwm atal a rheoli heintiau, ac ystyried amserlen addas ar gyfer y lleoliad cymunedol.	Rheolwr y ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Diwedd mis Chwefror 2026 - wedi'i gwblhau. Ychwanegwyd at y drafodaeth ym Mhwyllgor Atal a Rheoli

				Heintiau mis Mawrth 2026.
6. Roedd rhai eitemau o gyfarpar yn cael eu storio ar y llawr mewn stordy, yn hytrach nag ar silffoedd. Roedd hyn yn cynyddu'r risg o groes-heintio.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfarpar meddygol ac eitemau eraill eu storio ar silffoedd er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.	Gosod silffoedd newydd fel nad oes angen storio eitemau ar y llawr.	Rheolwr y ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Diwedd mis Chwefror 2026 - wedi'i gwblhau.
7. Roedd y dyddiad ar labeli gwasanaethu rhai eitemau o gyfarpar wedi mynd heibio.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfarpar a ddefnyddir ar y ward yn cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd.	Clerc y ward wedi llunio a chynnal rhestr o gyfarpar a dyddiadau gwasanaethu. Bydd y broses hon yn cael ei rhannu ar draws pob ward gan reolwyr Gwasanaethau Cymunedol yn ystod cyfarfodydd gweithredol ar lefel ward.	Rheolwr y ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Diwedd mis Chwefror 2026 - wedi'i gwblhau.
8. Nid oedd unrhyw gofnod o wiriadau ocsigen trwy bibell yn cael ei gadw ar y ward. Yn ogystal, caiff y falfiau i roi ocsigen wrth ochr y gwely eu cadw mewn stordy ac ni chânt eu gosod ar y pyrth rhyddhau ocsigen yn barhaol. Dywedwyd wrthym y	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall y staff roi ocsigen drwy bibell yn amserol bob amser a chadw cofnodion priodol.	Mae falfiau ocsigen bellach wedi'u gosod yn barhaol ar y pyrth rhyddhau ocsigen. Bydd archwiliad dyddiol yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith er mwyn gwirio'r ocsigen	Rheolwr y ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Diwedd mis Chwefror 2026

byddai'n rhaid i aelod o staff o'r adran ystadau ddod i'r ward i osod y falfiau os byddai angen, ac yn y cyfamser, byddai silindrau ocsigen cludadwy yn cael eu defnyddio. Nid yw'r broses hon yn effeithlon a gallai gyflwyno risg i'r cleifion pe bai argyfwng.		drwy bibell yn ddyddiol a'i rannu â phob ward.		
9. Nid oedd arsylwadau rheolaidd yn cael eu cynnal bob amser pan oedd sgoriau NEWS a darlleniadau o arsylwadau cleifion y tu allan i'r paramedrau arferol.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn arsylwi cleifion yn rheolaidd pan fydd sgoriau NEWS yn dangos bod angen gwneud hynny a bod darlleniadau o arsylwadau cleifion y tu allan i'r paramedrau arferol.	Mae pob rheolwr ward yn cwblhau archwiliad NEWS2 bob 8 wythnos sy'n cynnwys yr amledd cofnodi arsylwadau cywir, yn unol ag adnodd NEWS2. Bydd yr archwiliad yn cael ei ddigideiddio a'i gynnal gan bob ward yn fisol o fis Ebrill 2026 ymlaen - bydd y canlyniadau'n cael eu hadolygu yng nghyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y grŵp gwasanaethau cymunedol a bydd dysgu'n cael ei gefnogi.	Rheolwr y ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Diwedd mis Chwefror 2026 - wedi'i gwblhau. Ebrill 2026

		Cadarnhawyd mai 92% oedd y gydymffurfiaeth â hyfforddiant NEWS2		
10. Nid oedd ‘rownd bwrdd’ dyddiol ar waith er mwyn galluogi aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol i gynnal trafodaethau amserol ynghylch anghenion gofal y cleifion a chytuno ar gynllunio gofal ac ymyriadau.	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cyflwyno ‘rownd bwrdd’ dyddiol i wella'r broses o rannu gwybodaeth am ofal y cleifion.	Rhoi rownd bwrdd tîm amlddisgyblaethol ar waith yn ddyddiol ar y ward. Rhannu arfer da ar draws pob ward.	Rheolwr y Ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Diwedd mis Mawrth 2026
11. Nid oedd gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd, ac awgrymwn fod y staff gwasanaethau gwesty'n gweini'r bwyd, er mwyn rhyddhau'r gweithwyr cymorth gofal iechyd i fynd at y cleifion y mae angen cymorth arnynt i fwyta'u prydau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniant ar gyfer gweini prydau i'r cleifion a sicrhau bod y broses yn effeithiol a bod yr holl staff sy'n trin bwyd wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd.	Adolygu'r hyfforddiant ar gyfer staff mewn perthynas â hylendid bwyd a hefyd y broses ar gyfer gweini bwyd yng ngrŵp maeth BIAP. Codwyd hyn ym mis Ionawr 2026 ac mae wedi'i ychwanegu fel eitem ar yr agenda.	Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Diwedd mis Awst 2026
12. Gwelsom un enghraifft lle na chafodd atgyfeiriad deietetig ei wneud er bod sgôr NEWS y claf wedi	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn atgyfeirio cleifion at y deietegydd pan fydd eu sgôr NEWS yn dangos bod angen gwneud hynny.	Cais diwygiedig ar gyfer WAASP yn lle sgôr NEWS yn adroddiad AGIC.	Rheolwr y ward	Diwedd mis Ebrill 2026

sbarduno atgyfeiriad o'r fath.

Rhannwyd ar y bwletin wythnosol ac ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod tîm.

Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol

Bydd yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant adnodd sgrinio Risg Maeth Cymru Gyfan (WAASP) ar y Cofnod Staff Electronig. Rhannwyd ym mhob ward.

Pennaeth Nyrsio

Rhoi archwiliad wythnosol gan reolwr/dirprwy reolwr y ward ar waith i adolygu pwysau cleifion a sicrhau bod camau gweithredu priodol wedi'u cymryd yn unol ag adnodd Risg Maeth Cymru Gyfan. I'w rannu ar draws pob ward.

I'w fonitro trwy grŵp Maeth a Hydradu'r gyfarwyddiaeth a'i adrodd i'r grŵp Maeth a Hydradu nyrsio corfforaethol

13. Roedd copïau o'r cynlluniau gofal wrth ochr y gwely yn cael eu cadw ar ffurf papur.

Dylai'r bwrdd iechyd newid i system rheoli cofnodion cleifion cwbl electronig.

Mae cynnydd yn erbyn y cam gweithredu hwn yn dibynnu ar Gofnod Gofal Nyrsio Cymru

Nyrs Arweiniol - Gwybodeg Glinigol

Diwedd mis Chwefror 2027

		Gyfan. Ni chaiff cynllunio gofal ei gynnwys yng nghwmpas y rhaglen ar hyn o bryd, sy'n cyfyngu ar allu lleol i roi'r newid hwn ar waith. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgysylltu ag arweinwyr y rhaglen genedlaethol fel y caiff ei gynnwys yn y dyfodol lle y bo'n bosibl.		Wedi'i gwblhau.
14. Nid oedd pob penderfyniad a wnaed yn ystod cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol yn amserol ac yn rhagweithiol, gan arwain at oedi pellach wrth ryddhau cleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd y tîm amlddigysblaethol yn rhagweithiol, gan sicrhau prosesau rhyddhau amserol.	Datblygu templed ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod trafodaethau'n canolbwyntio ar ryddhau cleifion yn amserol a chynnwys proses ar gyfer gosod nodau wythnosol. I'w rannu ar draws pob ward Darparu hyfforddiant chwe nod mewn perthynas â gwaith amlddisgyblaethol effeithiol a rhyddhau cleifion yn amserol.	Rheolwr y Ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Diwedd mis Mawrth 2026

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Donna Jones ar ran Zoe Woodmass

Teitl swydd: Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol

Dyddiad: 13.02.2026